

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 19 Hydref 2016

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 25 HYDREF 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016 (copi ynghlwm).

5 DIWEDDARIAD AR WASANAETHAU GOFAL MEWNOL (Tudalennau 17 - 28)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant ac Oedolion (copi ynghlwm) sy'n rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd o ran Hafan Deg, Dolwen, Cysgod y Gaer ac Awelon, ac yn ceisio cytundeb yr aelodau ar gyfer yr argymhellion a wnaed gan Aelod Etholedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

6 FFRAMWAITH PARTNER DATBLYGU HAMDDEN (Tudalennau 29 - 42)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi ynghlwm) sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi Alliance Leisure Services Limited fel partner datblygu'r Cyngor ar fframwaith bedair blynedd i ddatblygu cyfleusterau newydd ac ailwampio'r cyfleusterau hamdden presennol.

7 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 1 – 2016/17 (Tudalennau 43 - 118)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi ynghlwm) yn manylu ar gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, 2016/17 o ran cyflawni deilliannau'r Cynllun Corfforaethol.

8 ADRODDIAD CYLLID (Tudalennau 119 - 136)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi ynghlwm) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET (Tudalennau 137 - 140)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet, sydd ynghlwm, a nodi'r cynnwys.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Dim Eitemau.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 27 Medi 2016 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr: Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

Arsylwyr: Cyngorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Meirick Davies, Martyn Holland, Huw Hilditch-Roberts, Gwyneth Kensler, Jason McLellan, Arwel Roberts a Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Rheolwr Cludiant Teithwyr (PD); Rheolwr Tîm Datblygu Masnachol (DM); Rheolwr Rhaglen (RV); Rheolwr yr Amgylchedd Adeiledig (GR); Prif Swyddog Cyllid (RW), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

DATGANIAD AR YR ADOLYGIAD BARNWROL YNGLŶN AG YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN

Gwnaeth y Cyngorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg y datganiad canlynol -

“Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod yr Uchel Lys wedi trosglwyddo dyfarniad ym mis Awst o ran her yr adolygiad barnwrol a ddygwyd gan Ymgyrch Pentrecelyn, yn erbyn y penderfyniad i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol Eglwys yng Nghymru newydd categori 2 ar ddau safle.

Penderfynodd y Llys y dylai'r penderfyniad gael ei ddiddymu ar sail weithdrefnol. Dywedodd y Llys hefyd nad oedd yn dweud bod penderfyniad y Cyngor yn anghywir ar y rhinweddau. Byddai'n agored i'r Cyngor wneud penderfyniad tebyg yn y dyfodol, os yw'n dymuno, yn dilyn ymarfer ymgynghori pellach.

Byddwn nawr yn cymryd amser i fyfyrion ar ganfyddiadau'r llys ac ystyried y ffordd orau ymlaen. Byddwn yn ceisio ymgysylltu â'r ddau Gorff Llywodraethol. Bydd swyddogion yn gweithio ar hyn ac yn adrodd yn ôl i'r Cabinet gyda chanlyniadau'r ystyriaeth honno.

Hoffwn ei gwneud yn glir nad yw'r farn hon yn effeithio ar unrhyw benderfyniad arall y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn perthynas ag unrhyw ysgol arall yn ardal Rhuthun.”

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol

Rhoddodd y Cadeirydd wybod am adferiad y Cynghorydd Jones, a oedd yn edrych ymlaen at ddychwelyd, unwaith roedd ei iechyd wedi gwella'n ddigonol.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Eryl Williams gysylltiad personol ag Eitem 6 ar y Rhaglen: Diweddariad ar Brosiectau a ariennir drwy'r Cynlluniau Tref ac Ardal, gan ei fod ef yn Gadeirydd Canolfan Cae Cymro.

3 MATERION BRYG

Ni chodwyd unrhyw faterion bryg.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016.

***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

5 GWASANAETHAU BWS LLEOL A CHLUDIANT ADDYSG

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd yn dilyn cwmp GHA Coaches Ltd ym mis Gorffennaf 2016, a cheisio cytundeb ar y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cludiant teithwyr yn y dyfodol.

Eglurodd y Cynghorydd Smith fod cludiant ysgol statudol wedi cael ei adfer yn syth ar ôl cwmp GHA Coaches a'r gwasanaethau bws lleol wedi'u hadfer yn raddol, yn rhannol o leiaf, hyd nes y ceir penderfyniad ynghylch y strategaeth ar gyfer y dyfodol. Talodd deyrnged i'r Tîm Cludiant Teithwyr am eu gwaith diflino wrth adfer cludiant i'r ysgol ar fyr rybudd a'r ymdrechion sylweddol a wnaed wrth sicrhau bod y cymunedau yr effeithir arnynt yn parhau i elwa o ryw fath o ddarpariaeth gwasanaeth bws lleol. Fodd bynnag, mae'r costau wedi bod yn sylweddol gyda £175k ychwanegol ar gyfer cludiant i'r ysgol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddai'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau bws lleol hefyd yn cael ei gorwario ac yng ngoleuni costau yn y dyfodol, cynigiwyd bod aelodau'n trafod y strategaeth yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau hynny a lefel y gyllideb ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn y dyfodol, fel rhan o'r gweithdy cyllideb sydd ar ddod. Fe wnaeth y Cynghorydd Smith hefyd ddiweddarau aelodau ynghylch y trafodaethau gyda'r Gweinidog dros yr Economi a'r Seilwaith, yn cynghori y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer y costau wrth adfer gwasanaethau bws lleol, ond nid oedd cyfraniad wedi cael ei gynnig ar gyfer cludiant i'r ysgol a oedd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r baich ariannol ychwanegol i'r Cyngor.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Cymeradwyodd y Cabinet y camau a gymerwyd gan y Tîm Cludiant Teithwyr wrth adfer gwasanaethau bws a thalwyd deyrnged i'w gwaith caled a'u hymdrechion i sicrhau cyn lleied o drafferthion â phosibl
- tra bod y cynnig o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bws lleol yn cael ei groesawu, codwyd pryderon ynghylch y pwysau ariannol sylweddol ychwanegol ar ddarpariaeth cludiant i'r ysgol a gofynnodd y Cabinet bod swyddogion yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i geisio cymorth ariannol pellach yn hynny o beth
- ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ac ymhelaethasant ar y ddarpariaeth wahanol mewn ardaloedd mwy poblog gyda thwf a buddsoddiad mewn gwasanaethau sector preifat, yn groes i ardaloedd mwy gwledig llai poblog, lle mae twf yn annhebygol
- trafodwyd dyfodol y gyllideb cludiant cyhoeddus ynghyd â'r sefyllfa ariannol a goblygiadau fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac roedd rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar opsiynau posibl i'w hystyried fel rhan o'r strategaeth yn y dyfodol, gyda'r bwriad o sicrhau gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol. Cydnabu swyddogion bryderon ynghylch effeithiau posibl mewn ardaloedd gwledig ac fe wnaethant ymateb i gwestiynau am lwybrau penodol a rheoli gwasanaethau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau atebion cynaliadwy wrth ystyried y strategaeth yn y dyfodol. Cadarnhaodd y swyddogion fod gwahanol fodolau yn cael eu harchwilio, gan gynnwys datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol. Roedd Cabinet yn cefnogi'r cynnig gan y Cyngorydd Eryl Williams fod y Cyngor yn cysylltu â'r Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer arian, er mwyn datblygu darpariaeth yn y gymuned. Cytunodd y Cabinet hefyd fod angen ystyried y gyllideb yn ei chyfanrwydd, fel rhan o'r broses gyffredinol o osod y gyllideb
- codwyd peth pryder bod y gost i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newydd wedi cynyddu mewn rhai achosion, a dywedodd y swyddogion nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros gost tocynnau bws ar gyfer gwasanaethau a weithredir yn fasnachol ac efallai y bydd yn rhaid addasu prisiau i sicrhau hyfywedd dyfodol y gwasanaeth – fodd bynnag, i deithwyr rheolaidd, byddai'n fwy cost-effeithiol prynu tocynnau bws wythnosol / misol neu flynyddol, nad oedd yn fantais a oedd ar gael yn flaenorol gan GHA Coaches - gofynnwyd i'r swyddogion godi ymwybyddiaeth o'r opsiwn hwnnw.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan swyddogion i lenwi bylchau gwasanaeth yn dilyn cwmp GHA, h.y. cefnogi'r meini prawf (a amlygwyd ym mharagraff 4.5 yn yr adroddiad) a ddefnyddir i adfer gwasanaethau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol;*
- cytuno y bydd y cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn i gyfrannu at rai o'r costau ychwanegol yn ystod 2016/17 (ar y dybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud cyfraniad ariannol ychwanegol);*
- cytuno y dylai trafodaethau am gyllideb y dyfodol ar gyfer gwasanaethau bws lleol ffurfio rhan o'r gweithdai cyllideb sydd ar ddod;*
- nodi a bod yn ddiolchgar am y cynnig o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru o ran y costau ychwanegol gan y Cyngor wrth adfer gwasanaethau*

bws lleol yn dilyn cwmp GHA Coaches. Byddai'r Cabinet yn annog y Gweinidog yn barchus i ystyried cymorth ariannol pellach o ran y costau ychwanegol yn y flwyddyn ariannol gyfredol yn y ddarpariaeth statudol o wasanaethau cludiant ysgolion, sy'n cynrychioli'r gyfran fwyaf o'r baich ariannol ychwanegol a osodwyd ar y Cyngor oherwydd tranc y cwmni hwn;

- (e) *yn cyfarwyddo swyddogion i gychwyn trafodaethau gyda swyddogion y Llywodraeth mewn perthynas â'r elfen cludiant ysgol o'r costau ychwanegol hyn, a*
- (f) *bod swyddogion yn mynd at y Cynllun Datblygu Gwledig i chwilio am arian ar gyfer datblygu gwasanaethau cludiant cymunedol.*

6 DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU A ARIENNIR DRWY'R CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn argymhell cymeradwyo'r cyllid ar gyfer prosiectau penodol Cynlluniau Tref ac Ardal fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Hyrwyddwyr Tref.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Huw Jones, adroddodd yr Arweinydd am ei bresenoldeb mewn nifer o gyfarfodydd Grŵp Hyrwyddwyr Tref. Tynnodd sylw at y dull a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i fuddsoddi yn ei drefi a chymunedau a'r broses arfarnu drylwyr a oedd wedi cael ei chymhwyso'n gyson i bob prosiect, yn seiliedig ar feini prawf clir a mecanwaith sgorio. Roedd manylion arfarnu'r prosiectau, gan gynnwys asesu prosiectau newydd posibl, a dyraniadau cyllid a argymhellwyd, wedi eu nodi yn yr adroddiad. Y disgwyl oedd y byddai'r holl arian arfaethedig a ddyrannwyd yn cael ei wario erbyn diwedd Mai 2017.

Mynegodd y Cynghorydd Eryl Williams beth siom gyda'r broses ar gyfer cyflwyno'r gyfran ddiweddaraf o brosiectau i'w hasesu heb gyfraniad y Grwpiau Ardal Aelodau, o ystyried gwerthoedd trafod cynlluniau posibl yn lleol. Dywedodd yr Arweinydd y dylid bod trafodaeth rhwng hyrwyddwyr tref ac aelodau lleol ar brosiectau posibl cyn eu cyflwyno. Nodwyd bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno prosiectau er mwyn defnyddio'r tanwariant wedi bod yn fyr ar yr achlysur hwn. Roedd y Cynghorydd Meirick Davies yn siomedig nad oedd y prosiect Trefnant wedi cael cefnogaeth a dywedodd yr Arweinydd fod yr un mecanwaith ar gyfer gwerthuso wedi cael ei gymhwyso'n gyson i bob prosiect arfaethedig.

PENDERFYNWYD *bod yr arian heb ei ymrwymo a oedd yn gyfanswm o £100,000 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd yn yr adroddiad.*

7 GWELEDIGAETH TWF AR GYFER ECONOMI GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyo 'Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru' fel sail ar gyfer trafodaethau gyda Llywodraethau Cymru a'r DU dros Gynnig Bargaen Twf ar gyfer y rhanbarth.

Roedd y ddogfen Gweledigaeth Twf yn ganlyniad dull cydweithredol ac yn nodi uchelgais clir ar gyfer Gogledd Cymru, yn enwedig mewn perthynas â datblygu

seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes. Os yw busnes yn cael ei sicrhau i gyflawni cynllun gweithredu'r prosiectau, byddai'r rhanbarth yn profi twf economaidd cynaliadwy a byddai gwerth yr economi yng Ngogledd Cymru'n tyfu o £12.8 biliwn yn 2015 i £20 biliwn erbyn 2015 ac yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd. Credai'r Arweinydd fod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda yn logistaidd i elwa o fuddsoddiad a byddai'r ddogfen Weledigaeth yn ategu at waith y Cyngor ei hun wrth ddatblygu'r economi leol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Economi a Pharth y Cyhoedd drosolwg o'r ddogfen sy'n nodi gweledigaeth a strategaeth ar gyfer twf ar draws y rhanbarth, gan gynnwys pecyn o brosiectau, er mwyn sicrhau twf economaidd a chyflogaeth gynaliadwy ac yn darparu sail ar gyfer trafodaethau buddsoddi â Llywodraethau Cymru a'r DU.

Croesawodd y Cabinet y Weledigaeth Twf fel ffordd o ddarparu fframwaith strategol a chyd-destun er mwyn llywio buddsoddiad a darparu twf ar draws y rhanbarth, a nododd y gefnogaeth eang gan sectorau a sefydliadau eraill.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- trafododd yr aelodau'r strategaeth i fanteisio ar gysylltiad ag economïau'r Northern Powerhouse ac Iwerddon, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau o fewn gweinyddiaethau cyfredol, gan nodi bod ymrwymiad yn parhau i gryfhau a datblygu'r economi ac y byddai'r Weledigaeth yn sicrhau bod y rhanbarth yn y sefyllfa orau i fanteisio ar fuddsoddiad
- roedd datblygu Bargaen Twf ar gyfer Gogledd Cymru wedi'i gynnwys yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a byddai'r Weledigaeth yn ffurfio sail ar gyfer y trafodaethau hynny - nodwyd bod y Gweinidog dros yr Economi a'r Seilwaith wedi bod yn gadarnhaol ynghylch y Weledigaeth a byddai â rôl allweddol wrth ddatblygu economi Gogledd Cymru
- roedd y Cynghorydd Eryl Williams wedi bod yn siomedig nad oedd y diwydiant amaethyddol wedi'i grybwyll yn benodol â'r ddogfen Weledigaeth o ystyried ei bwysigrwydd yng Ngogledd Cymru, ac fe gyfeiriodd yr Arweinydd at yr anawsterau wrth godi proffil un diwydiant penodol dros un arall, yn enwedig pan fo diwydiannau eraill yn creu mwy o swyddi. Nodwyd bod rhai cynhyrchion amaethyddiaeth, megis y sector bwyd a diod, wedi cael eu nodi
- amlygwyd pwysigrwydd seilwaith cludiant ac adroddodd y Cynghorydd David Smith ar waith y Fforwm Ymgynghorol ar Gludiant, o ran dylanwadu ar gynlluniau cludiant yn y dyfodol i fanteisio ar dwf economaidd yn y rhanbarth, a'i gefnogi
- cyfeiriwyd at y rhaglen sgiliau a sicrhau bod pobl â'r sgiliau angenrheidiol a mynediad at swyddi wrth iddynt gael eu creu, ac adroddodd y Cynghorydd Eryl Williams ar y gwaith o fewn ysgolion ynglŷn â gyrfaedd yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu harfogi â'r sgiliau yr oedd cyflogwyr eu hangen drwy wahanol fentrau, megis y rhaglen Llwybrau+. Byddai bod heb waith yn cael sylw drwy raglenni penodol sy'n canolbwyntio ar amgylchiadau'r unigolyn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) cymeradwyo "Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru" (ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad) a chymeradwyo ei defnyddio fel sail ar

gyfer trafodaethau gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyda Llywodraethau Cymru a'r DU dros Gynnig Bargen Twf ar gyfer y rhanbarth, a

- (b) *nodi y bydd unrhyw Gynnig Bargen Twf ffurfiol sy'n codi yn cael ei gyflwyno i'w benderfynu gan y Cyngor, cyn i Gyngor Sir Ddinbych wneud unrhyw ymrwymiad.*

8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaeth ar gyfer 2016/17. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- rhagwelwyd gorwariant net o £0.351 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- roedd 60% o arbedion wedi'u cyflawni hyd yn hyn (targed 5.2m) gyda 10% arall yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael ei ohirio a'i gyflawni yn 2017/18, gyda dim ond 5% o arbedion ddim yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlen
- tynnwyd sylw at risgiau cyfredol a rhagdybiaethau sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Ymhelaethodd y Cynghorydd Thompson-Hill ar faterion ariannol eraill o fewn yr adroddiad a gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft; camau gweithredu i liniaru effeithiau ar alldro ariannol arbedion sydd naill ai'n cael eu gohirio neu heb eu cyflawni, ac argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol i fuddsoddi £4.4 miliwn yng nghanm cyntaf prosiect datblygu glan y môr y Rhyl.

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- Tynnodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at yr effaith ar gyllideb y Cyngor yn deillio o doriadau i gyllid grant gan Lywodraeth Cymru, a oedd y tu allan i reolaeth y Cyngor - gofynnodd fod manylion y toriadau ariannol hynny yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer tryloywder (tudalen 71, Tabl 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru). Nododd y Swyddogion fod y driniaeth o grantiau wedi'i chynnwys yn y cyflwyniad i Gomisiwn Cyllid Llywodraeth Leol fel rhan o'r adolygiad cyllid
- Roedd Cabinet yn falch o nodi'r buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau mawr, gan gynnwys Glan y Môr y Rhyl a hefyd fe dynnwyd sylw at lwyddiant y Nova. Roedd y Cynghorydd Eryl Williams yn falch o adrodd ar y cynnydd gyda phrosiectau mawr o ran y Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, gan roi gwybod bod Sir Ddinbych ar flaen y gad o ran buddsoddi mewn moderneiddio ysgolion, a oedd yn wahanol i gynghorau eraill nad oeddent mewn sefyllfa i fuddsoddi. Rhoddodd glod i'r cyngor blaenorol a'r cyngor cyfredol am y weledigaeth strategol tymor hir ar gyfer ysgolion, a'i bod wedi'i gwireddu. O ran argaeledd arian yn y dyfodol, roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi bron i £2 biliwn mewn ysgolion newydd ac wedi'u hadnewyddu, a fyddai'n rhoi cyfle i barhau â'r rhaglen foderneiddio
- Cyfeiriodd y Cynghorydd David Smith at yr angen i fynd i'r afael â'r gorwariant parhaus ar y gyllideb Cludiant Ysgol, gyda'r bwriad o ddarparu cyllid

ychwanegol i gwrdd â chost lawn y ddarpariaeth yn y gyllideb sylfaenol - roedd hefyd angen cwrdd â'r gost ychwanegol o £175k, yn dilyn cwmp GHA Coaches

- Lleisiodd y Cynghorydd Jason McLellan ei bryderon ynghylch y broses gosod cyllideb ac amserlen. Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill a swyddogion bod proses y gyllideb yn gadarn gan ymateb i'r pryderon a godwyd yn manylu ar y broses cyllideb hyd yma a'r camau nesaf arfaethedig er mwyn gosod y gyllideb ar gyfer 2017/18. Nodwyd y byddai proses y gyllideb yn cael ei thrafod yn fwy manwl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn -

- (a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni;*
- (b) cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft (yn amgaaedig fel Atodiad 5 i'r adroddiad)*
- (c) cymeradwyo'r camau gweithredu sy'n cael eu hargymell i liniaru effeithiau alldro ariannol yr arbedion sydd unai'n cael eu gohirio tan 2017/18, neu ddim yn cael eu cyflawni o gwbl fel sy'n cael ei nodi yn y tabl ym mharagraff 6 yr adroddiad, a*
- (d) cymeradwyo argymhelliad y Grŵp Buddsoddiad Strategol i fuddsoddi £4.4m yng nghanm cyntaf prosiect datblygu glan y môr y Rhyl. Mae'r argymhelliad yn ymgorffori cymeradwyo pecyn cyllido sy'n cynnwys clustnodi'r derbyniad cyfalaf y disgwylir ei dderbyn o werthu cyn safle'r Honey Club yn y Rhyl (fel y manylir yn nhablau paragraff 6 yr adroddiad).*

Ar y pwynt hwn (hanner dydd) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth ac fe wnaeth yr Arweinydd – y Cynghorydd Hugh Evans, adael y cyfarfod. Wedi ailddechrau'r trafodion, fe wnaeth y Dirprwy Arweinydd - y Cynghorydd Eryl Williams, gadeirio.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/diwygiadau canlynol -

- Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol Drafft (Hydref) – efallai y caiff ei symud
- Darpariaeth Uwchradd yn Seiliedig ar ffydd (Hydref) – symudwyd
- Cam Datblygu 1b Glan y Môr y Rhyl elfennau masnachol - Hydref
- Cynigion Terfynol y Gyllideb 2017/18 - Ionawr

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at gael gwared ar yr adroddiad Darpariaeth Uwchradd yn Seiliedig ar Ffydd a drefnwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Hydref, a dywedodd y gallai'r eitem gael ei hadfer os bydd angen, unwaith y bydd y sefyllfa'n gliriach. Adroddodd am yr anawsterau wrth fwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac agor ysgol ffydd newydd, a dywedodd fod trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn dod o hyd i ffordd ymlaen y gall pawb dan sylw gytuno arni.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

PENDERFYNWYD o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar sail y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14, 16 ac 17 o Ran 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn debygol o gael ei datgelu.

10 CYTUNDEB CYMAL LLETYGARWCH DATBLYGIAD GLANNAU'R RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn diweddaru'r Cabinet ar y cynnydd gyda phrosiect Glan y Môr y Rhyl, a gofyn am gymeradwyaeth i gwblhau'r Cytundeb Cymal Lletygarwch. Roedd manylion pellach am y cytundeb cyfreithiol wedi eu dosbarthu yn y cyfarfod.

Roedd Neptune Development Limited wedi'i benodi fel y partner datblygu a ffafir ar gyfer Glan y Môr y Rhyl, ac fe wnaeth y Cyngor a Neptune gwblhau cytundeb cyfyngu yn Chwefror 2015 i symud ymlaen ymhellach â thrafodaethau. Roedd y Cytundeb Datblygu Meistr wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2016 ac roedd y rhan gyntaf o'r cytundeb datblygu yn barod i gael ei llofnodi. Cyfeiriwyd at statws y gwahanol gymalau o fewn y parthau lletygarwch gyda chyllid ar gyfer Cymal 1a (Theatr y Pafiliwn a'r Maes Parcio) a Chymal 1c (Dymchwel ac adfer yr hen Heulfan) wedi'i sicrhau. Roedd opsiynau ariannu yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd ar gyfer Cymal 1b (Rhodfa'r Dwyrain, Hamdden, Bwyd a Diod Masnachol) a byddai model ariannu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cabinet i'w ystyried.

Croesawodd y Cabinet yr ail-ddatblygu a'r buddsoddiad yng Nglan y Môr y Rhyl, gan ddangos ymrwymiad y Cyngor i'r cynllun. Ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i gwestiynau ynghylch y materion cyfreithiol ac elfennau cytundebol o fewn y cynllun, ac adroddwyd ynghylch fforddiadwyedd a'r elfennau risg, ynghyd â chynlluniau i wella ac adnewyddu'r Maes Parcio Dan Ddaear.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cymeradwyo bod y Cytundeb Cymal Lletygarwch yn cael ei wneud gyda Neptune Development, â'r Cytundeb hwn yn cynnwys amod y bydd Cymal 1b ond yn symud ymlaen pan fydd telerau ariannu manwl yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor, gyda chymeradwyaeth o'r fath ar ddisgresiwn llwyr y Cyngor.

11 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH - GORCHYMYN PRYNU GORFODOL

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn manylu ar y camau angenrheidiol i gymryd perchnogaeth o'r safle a chwblhau'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol.

Roedd y Cabinet yn gwybod am y dewisiadau i'w hystyried er mwyn symud ymlaen i'r Gorchymyn Prynu Gorfodol, a oedd wedi eu nodi yn yr adroddiad, ynghyd â'r opsiwn a argymhellwyd a'r rhesymau felly. Nodwyd y ceisiwyd am gefnogaeth y

Cabinet ar gyfer yr opsiwn a ffafrir cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad ym mis Tachwedd / Rhagfyr.

Trafododd yr Aelodau'r gwahanol opsiynau gyda swyddogion a chodwyd cwestiynau ynglŷn â chadernid y mesurau lliniaru arfaethedig er mwyn lleihau'r risg i'r Cyngor sy'n deillio o'r broses. Fe fanylodd y Swyddogion ar y senarios posibl a allai godi o'r gwahanol ddewisiadau ac ymhelaethwyd ar y broses ar gyfer pennu iawndal sy'n daladwy, os byddai'r Cyngor yn cymryd perchnogaeth o'r safle. O ran dyfodol y safle, os byddai'r Cyngor yn cymryd perchnogaeth, rhoddwyd sicrwydd bod cynllun cyflawni wedi'i gostio'n llawn yn ei le.

Cytunodd y Cabinet ei bod yn bwysig gweithredu a chynnal momentwm ac mai'r opsiwn a argymhellwyd oedd y ffordd orau ymlaen yn yr achos hwn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cefnogi gwneud y Datganiad Breinio Cyffredinol a symud ymlaen i'r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer cymeradwyaeth derfynol, pan fydd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd, y Prif Swyddog Cyllid a'r Aelod Arweiniol yn fodlon bod mesurau lliniaru rhesymol parthed risg ariannol wedi cael eu sicrhau fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	25 Hydref 2016
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cyngorydd Bobby Feeley / Phil Gilroy
Awdur yr Adroddiad:	Emily Jones-Davies
Teitl:	Diweddariad ar Wasanaethau Gofal Mewnol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Hysbysu'r Cabinet am gynnydd o safbwynt Hafan Deg, Dolwen, Cysgod Y Gaer ac Awelon, a gofyn i Aelodau gytuno i'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen Aelodau Etholedig.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Ym mis Mai 2016, cyflwynwyd adroddiad manwl i'r Cabinet yn darparu deilliant yr ymarfer ymgynghori o safbwynt newid o ddarpariaeth fewnol i ddarpariaeth allanol. Gofynnodd y Cabinet i Swyddogion archwilio partneriaeth bosib gyda sefydliadau allanol ar gyfer Hafan Deg a Dolwen, ac i archwilio opsiynau pellach ar gyfer Cysgod y Gaer ac Awelon gyda'r cyrff perthnasol.

(Bydd y ddolen isod yn mynd a chi at gofnodion y cyfarfodydd Archwilio a Cabinet a gynhaliwyd yn Ebrill a Mai 2016:

Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad 12 Ebrill 2016:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgAi.aspx?ID=9333&LLL=0>

Cyfarfod Cabinet, 24 Mai 2016:

<https://moderngov.denbighshire.gov.uk/mgAi.aspx?ID=9497&LLL=0>

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan y Grŵp Tasg A Gorffen Aelodau Etholedig ar 13 Medi 2016 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 29 Medi 2016 i'r Cabinet, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth gofal cymdeithasol mewnol y cyngor ar gyfer pobl hŷn, ac i argymhell gweithgaredd caffael ar gyfer Hafan Deg a Dolwen.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae Cabinet yn gofyn i Swyddogion gynnal:

- (i) proses dendro swyddogol o safbwynt darpariaeth gwasanaethau yn Hafan Deg (Y Rhyl), er mwyn trosglwyddo'r adeilad i sefydliad allanol, comisiynu gwasanaeth gofal dydd o fewn yr adeilad, ac yn ogystal, galluogi asiantaethau 3ydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn sy'n lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hyrwyddo atgyfnerthiad.
- (ii) proses dendro ffurfiol o safbwynt y ddarpariaeth gwasanaethau yn Nolwen (Dinbych) gyda sefydliad allanol gyda'r bwriad o drosglwyddo'r adeilad a'r holl wasanaeth i

sefydliad allanol a fydd yn cofrestru Dolwen i ddarparu gofal iechyd meddwl yr henoed dydd a phreswyl.

- (iii) Bod yr holl ddogfennaeth dendro yn manylu ar yr angen i nodi tystiolaeth o safon y gofal a darpariaeth iaith Gymraeg a fyddai'n cael ei ddarparu yn y ddau sefydliad; a
- (iv) fod y cynigion ar ddiwedd y broses dendro yn cael eu gwerthuso a'u dadansoddi am effeithiau posib gan y Grŵp Tasg A Gorffen cyn cael eu cyflwyno i Archwilio Perfformiad a Cabinet gydag argymhellion ynglŷn â'r Darparwr a ffafrir, cyn penodi, er mwyn cael cymeradwyaeth lawn y Cabinet ac i gyflawni'r deilliant mwyaf manteisiol. (Byddai unrhyw benodiadau yn ddarostyngedig i fodlonrwydd y Cabinet y byddai trosglwyddo asedau a darpariaeth arfaethedig y gwasanaeth yn y sefydliadau hynny er lles gorau defnyddwyr gwasanaeth, trigolion a'r Cyngor)

4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Canolfan Gofal Dydd Hafan Deg, Y Rhyl

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu gyda darparwyr posib ar 12 Gorffennaf. Roedd diddordeb sylweddol, gyda 4 darparwr posib yn mynychu. Cwblhaodd y darparwyr a fynychodd holiadur profi marchnad, gan nodi eu ffafriaeth a'u hawgrymiadau ar ddefnydd yn y dyfodol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys bistro mewnol a chaffi pryd ar glyd, canolfan galw heibio, asiantaeth gofal cartref di elw, siop elusen a menter gymdeithasol.

Dylem gynnig cynnwys rhai o'r syniadau hyn yn y fanyleb gwasanaeth a fydd yn cael ei llunio os rhoddir caniatâd i fynd i dendr. Yn ogystal â hyn, rydym yn cynnig y byddai'r tendr yn golygu:

- Fod y gwasanaeth gofal dydd presennol yn cael ei gynnal i safon uchel wrth gynyddu argaeledd y gwasanaeth hwn i drigolion Sir Ddinbych
- Ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r gymuned oddi amgylch i gefnogi'r bobl hŷn hynny a fyddai fel arall mewn peryg o arwahanrwydd cymdeithasol.
- Y byddai asiantaethau 3ydd sector yn gallu defnyddio'r ganolfan i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn a fyddai'n lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth a hyrwyddo atgyfnerthiad.
- Darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymarfer tendro mae angen gwaith pellach. Mae hyn yn cynnwys Cyfreithiol, Rheoli Asedau, Adnoddau Dynol a Chaffael er mwyn sicrhau bod manyleb y gwasanaeth, trefniadau contract a les yn ddiogel ac yn cynnig yr holl fanteision yr ydym yn eu ceisio. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr, yn barod i'w dendro ar ddechrau Chwefror 2017.

4.2 Cartref Gofal Dolwen, Dinbych

Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu ar 8 Gorffennaf. Roedd llai o ddiddordeb yn y digwyddiad hwn, a dim ond un darparwr posib a fynychodd. Er na fynychodd darparwyr posib ar y diwrnod, mae mynegiannau o sgysiau anffurfiol gyda nhw yn dangos y gallent fod â diddordeb cyflwyno cais tendro llawn.

Awgrymodd y darparwr posib a fynychodd y digwyddiad ymgysylltu y byddai ganddynt diddordeb prynu'r adeilad, ei uwchraddio a'i ehangu, ac yna denu asiantaeth gofal ar wahân i ddarparu'r gofal. Byddai trefniadau TUPE (Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogel Cyflogaeth) yn dal yn berthnasol. Mae swyddogion o'r farn y gallai'r awgrym hwn fod yn hyfyw ac y gallai

weithio'n dda ond hoffent brofi'r farchnad ymhellach drwy dendr agored er mwyn sicrhau bod yr holl ddewisiadau wedi eu hystyried cyn gwneud argymhellion i'r Cabinet.

Er mwyn paratoi ar gyfer yr ymarfer tendro mae angen gwaith pellach. Mae hyn yn cynnwys Cyfreithiol, Rheoli Asedau, Adnoddau Dynol a Chaffael er mwyn sicrhau bod manyleb y gwasanaeth, trefniadau contract a les yn ddiogel ac yn cynnig yr holl fanteision yr ydym yn eu ceisio. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr, yn barod i'w dendro ar ddechrau Chwefror 2017.

4.3 Cartref Gofal Awelon, Rhuthun

Rydym wedi cwrdd â'r Gymdeithas Dai sy'n berchen ar Gynllun Gofal Ychwanegol Llys Awelon. Maent wedi dweud wrth syrfewyr a phenseiri i gynnal astudiaeth ddichonoldeb o'r ddau ddewis ar gyfer y safle. Rydym yn aros am adroddiad ar y pwnc hwn ond yn deall y bydd ar gael mewn pryd ar gyfer cyfarfod Archwilio Perfformiad ym mis Rhagfyr a'r Cabinet fis Ionawr. Yn y cyfamser rydym wedi ystyried costau rhedeg cartref 10 gwely ar y safle, gyda chostau uned mynegol yn dangos fel £1000 yr wythnos.

4.4 Cartref Gofal Cysgod y Gaer, Corwen

Rydym mewn trafodaeth gyda chydweithwyr o Cyfleusterau, Asedau a Thai am y potensial ar gyfer adeiladu estyniad i Gartref Cysgod y Gaer i ddarparu rhai fflatiau gyda chefnogaeth ar y safle. Rydym hefyd wedi cychwyn gweithio ar recriwtio Gweithwyr Gofal Cartref i greu tîm newydd o bobl a fyddai wedi eu lleoli yn ne'r sir - i'w lleoli yng Nghysgod y Gaer maes o law. Byddai'r bobl hyn yn gallu darparu cefnogaeth cartref i bobl yn yr ardal gyfagos fel y disgrifir yn ein cynigion ar gyfer Cysgod y Gaer.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y penderfyniad yn cyfrannu'n uniongyrchol at dair o flaenoriaethau corfforaethol y cyngor:

- i. Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl;
- ii. Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da; a
- iii. Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid

Bydd yr opsiynau a argymhellwyd yn cefnogi'r tair blaenoriaeth corfforaethol hyn achos:

- i. Bydd yn lleihau'n dibyniaeth ar wasanaethau gofal preswyl traddodiadol, ac yn darparu dewisiadau amgen sy'n galluogi mwy (e.e. Tai Gofal Ychwanegol) a fydd yn cwrdd yr un lefel o angen, ond y profwyd eu bod yn golygu deilliannau gwell i ddinasyddion, gan gynnwys o safbwynt cynyddu annibyniaeth.
- ii. Bydd yn galluogi buddsoddi mewn adnoddau na all y cyngor fforddio eu darparu, a'r canlyniad fydd tai o well safon ar gyfer pobl hŷn sydd ag anghenion gofal sylweddol. Er enghraifft, bydd angen dod a Dolwen i safon isafswm cyfredol er mwyn i berchennog newydd gofrestru fel darparwr IMH. Ymhellach at hynny, byddai hen gartref preswyl Awelon yn cael ei ddisodli gan dai gofal ychwanegol modern.
- iii. Bydd Sir Ddinbych yn elwa o gael mwy o gynlluniau Tai Gofal Ychwanegol, a bydd y cyngor yn gwneud arbedion effeithlonrwydd drwy sicrhau nad ydym yn talu mwy na gwerth y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Ni fydd angen i Wasanaethau Cymorth Cymunedol gael cyngor cyfreithiol a chaffael er mwyn ei weithredu'n llwyddiannus. Er enghraifft, byddai angen arbenigedd cyfreithiol gydag unrhyw benderfyniad i drosglwyddo perchnogaeth asedau'r cyngor i'r sector annibynnol, er mwyn diogelu buddiannau'r cyngor a'r gymuned. Mae cydweithwyr o'r adrannau hyn eisoes yn gweithio gyda ni er mwyn deall y bwriad yn well.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Cyflwynwyd Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb yn adroddiad Cabinet Mai 2016.

Mae angen gwahaniaethu rhwng yr effaith uniongyrchol ar y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau ar hyn o bryd (a'u teuluoedd a'u ffrindiau), a'r effaith ar y gymuned yn ei chyfanrwydd. Mae'r cyngor eisoes wedi gado lliniaru cymaint â phosib ar yr effaith bosib ar ddefnyddwyr gwasanaeth presennol (a'u teuluoedd a'u ffrindiau) drwy nodi na fyddai'n rhaid i neb symud o'u cartref presennol, oni bai nad yw'n bosib i'r cartref hwnnw gwrdd eu gofynion bellach. Yn gyffredinol, rydym yn credu y byddai'r cynnig hir dymor a ddarperir gan y dewisiadau a ffafirir a nodir yma yn golygu effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir, yn arbennig pobl hŷn. Rydym yn bwriadu adolygu'r Asesiad O Effaith Ar Gydraddoldeb yng nghyd – destun ehangach Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb pan fydd y cynigion tendr wedi eu derbyn ac argymhellion yn cael eu gwneud i'r Cabinet.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Bydd aelodau'n ymwybodol o'r ymgynghori dwys sydd wedi ei wneud, fel y manylir yn yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Mai 2016. Mae'r cynigion o fewn yr adroddiad hwnnw wedi eu datblygu gan Grŵp Tasg A Gorffen Aelod Etholedig, ac mae'r holl gynigion wedi eu harchwilio gan Bwyllgor Archwilio Perfformiad cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan y Cabinet.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad, bydd goblygiadau cost un ai angen gwaredu asedau neu fuddsoddi cyfalaf yn dod yn fwy eglur fel bydd yr elfennau amrywiol yn datblygu. Mae prosesau cymeradwyaeth mewnol yn eu lle er mwyn ystyried trefniadau les neu warediadau (drwy'r Grŵp Rheoli Asedau) a bydd angen adrodd am gynigion buddsoddi cyfalaf i'r Grŵp Buddsoddi Strategol. Mae adolygiad y gwasanaethau mewnol yn cefnogi strategaeth y gyllideb drwy ddarparu gwasanaethau modern, effeithiol gyda deilliannau gwell a hwyluso buddsoddiad mewn gwasanaethau ac adeiladau gan eraill.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg y gallai unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cabinet gael ei herio gan unigolyn/grŵp ac y gallai hyn arwain at adolygiad barnwrol o'r penderfyniad. Mae hyn wedi digwydd gyda phenderfyniadau eraill a wnaed gan awdurdodau lleol eraill a sefydliadau sector gyhoeddus mewn blynyddoedd diweddar. Yn gyffredinol gwneir heriau o'r fath ar y sail na ddilynwyd y drefn briodol yn ystod y broses ymgynghori.

Mae'r Tîm Prosiect yn teimlo fod y risg hwn wedi ei ostwng gymaint â phosib drwy'r broses drwyadl a gynhaliwyd er mwyn rheoli'r adolygiad hwn a'r ymgynghori dilynol. Er enghraifft, cynhaliwyd ymarfer (cyn-ymgynghori) "gwrando ac ymgysylltu" sylweddol a siapiodd yr opsiynau a ddaeth yn ganolbwynt i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Tîm Prosiect hefyd

wedi gwneud popeth sy'n rhesymol er mwyn galluogi a hyrwyddo cyfranogiad yn y broses ymgynghori. Rydym wedi ystyried Egwyddorion Cyfreithiol Gunning 1985 o safbwynt ymgynghori yn ofalus er mwyn sicrhau fod y broses ymgynghori yn deg ac yn gadarn. Mae Aseiad O Effaith Ar Gydraddoldeb trylwyr hefyd wedi ei gynnal er mwyn sicrhau bod digon o ystyriaeth wedi ei roi i ddyletswyddau'r Ddeddf Gydraddoldeb.

Yn olaf, rydym wedi gweithio gyda'r Sefydliad Ymgynghori sydd wedi cynorthwyo i'n harwain drwy'r broses ymgynghori a hefyd wedi darparu cyngor a her drwy gydol y prosiect.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Deddf Cymorth Gwladol 1948, Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn manylu cyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol o safbwynt cwrdd anghenion unigolion diamddiffyn, gan gynnwys y gallu i gwrdd anghenion fel mae'r Awdurdod Lleol yn ei weld sy'n briodol. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparu'r allanol.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Summary of Market testing Questionnaires

A total of 4 Providers responded to the Market Testing Questionnaire. 3 Providers were 3rd sector organisations, whilst 1 Provider was an independent Domiciliary Care provider. A summary of their ideas and suggestions for the future use of Hafan Deg are shown below.

Provider 1

Provider 1 suggested the following services could be developed at Hafan Deg:

- Increase the day care service to 27 regular older people with multiple and complex needs. Equivalent to 60 days per week (5 days)
- Promote wider use of the facilities and activities to the local community.
- Aim towards opening the centre 7 days per week according to demand.
- Increase opening hours for between 9am – 6pm with flexible arrangements to suit carers' needs.
- More structured programme of activities and interventions that focus on the needs of the individual, such as brain function.
- Forge stronger links with local colleges and their social care students.
- Form Hafan Deg service user involvement group to inform how and what services are delivered.
- Offer options for clients in residential care homes to visit and engage in activities.
- Work with others like the Get Together Club and Cozy Club to share capacity and use.
- Make greater use of the catering function by providing outside catering and 'meals on wheels'.
- Advertise the bathing and laundry facility as a chargeable facility that is operated by on-house staff. Add other similar services such as toe nail cutting, manicure and hairdressing.
- Adherence to the Welsh Language Measure to attract more service users.

Activities would be categories so that they could be easily matched with the individuals assessed needs, preference and capabilities. Examples would include:

Social - Church attendance; visits to cinema/restaurants/sporting events, day or overnight trips, video shows, playing cards/games/bingo, chess, draughts, dominoes; participation in social groups, library visits, book club, women's group, Welsh group.

Fitness & Health - Active sports or swimming; walking; physical exercise, relaxation, armchair yoga, alternative therapies such as reiki, massage, Tai Chi and reflexology.

Productive - Art class, making music, singing, gardening; preparing meals; shopping; unpaid community work; paid community work; other paid employment, knitting/sewing, painting, introduction to the internet, card making and creative writing.

We would also facilitate help with claiming benefits (C.A.B), energy advice (our Cold-buster project), flu vaccine and our Legal Allies scheme (making a Will, Powers of Attorney, Equity Release...).

Improve community integration - A brochure would be produced of services, which would be circulated throughout the community including public places and local services/professionals. We would follow this up with presentations at Social Worker team meetings, GP's, the SPoA and other health services and charities (CMHT, VoCM...).

A web page or website presence would be required that is kept up-to-date with the programme of activities and facilities available. Electronic mailshots would keep service users, carers and professional abreast of what was available each month in advance.

For the service users, it is an opportunity for them to integrate in the community just by attending and making new friends. Guest speakers would be invited to Hafan Deg to deliver talks on anything of interest (politics, being safe, scams...).

Relations with Rhyl High School will continue to develop to promote intergenerational cohesion within the community. This would take the form of work experience by volunteering within the centre and helping with day trips.

Provider suggests the premises be leased at a peppercorn rent for 12 months on the assumption that the new provider who would eventually purchase the building (£200,000?), be successful in either:

- Obtaining a People and Places Lottery grant (or other source), or;
- Obtaining a mortgage/loan

The reason for the 12 months rental incentive would be to allow the new provider to obtain capital funding, whilst fully implementing the new service levels.

Provider 2

Provider 2 would look to expand the day services and could also offer the services to people who may need some personal care. They would also be interested in offering a bathing service, subject to need.

Provider 2 would also seek to develop Hafan Deg into a dementia hub, building on the work they currently provide for people with dementia and their carers. This would be a place in the community that people could drop into for a cup of tea, some

information and advice and just a place to improve people's health and wellbeing and reduce their social isolation and offer carers a break.

Provider 2 would offer the office space as a hot desk facility to other voluntary and statutory groups. And also encourage other voluntary and statutory groups to use the facilities for meetings or to hold events.

Provider 2 stated, 'Having recently secured the tender to deliver Dementia services across North Wales we are interested in building up dementia friendly hubs across the 6 counties. We believe this is a good opportunity for us to begin this process in Denbighshire. We already facilitate drop in café's/groups in other areas of North Wales and the feedback from them is wholly positive. We would work with other providers and community groups in the area to offer local residents the sort of information/advice and activities they actually want as we would want the community to be fully involved in the running of the centre. We hear many stories of how people with memory problems and their carers become more and more isolated within their own communities and lose vital friendships and support. This can lead to more GP appointments being made, people spiralling into depression and just general unhappiness and crisis point being reached by carers sooner than it might have, resulting in care homes and hospital admissions. Our current work has informed us of the need for peer support for these carers and cared for and the feedback we are receiving from both users and local authorities is very positive. The people attending say they feel supported and valued in their communities again and better able to cope in their caring role as their own stress levels are lowered and their health and wellbeing is being supported'.

Provider 3

The project would include the asset transfer of the centre to a not for profit special purpose vehicle set up by Provider 3 and legally asset locked to our charitable purposes. The building would be transferred on a full repairing 99-year lease at a peppercorn rent. We would have no objection to a reasonable covenant on the building as long as it didn't exclude any commercial activity as this would not allow us to make the service sustainable in the long term. At the same time as the transfer we would be contracted to provide day services for a period of 5 years from the date of the asset transfer paying for services on a day rate basis equivalent to the authorities' current rate.

They would then look to make the centre sustainable in the long term by completing a number of projects,

- Locate our own service from the centre to reduce our costs
- Look to expand the day service. Increasing the number of day places available to the local authority as well as to those using direct payments to manage their own budgets and to private clients.
- Expand the facilities and services available to include respite care as well as other extensions to the service such as a bathing service.

- Use the facility as the base to establish a not for profit domiciliary care agency, using the combination of day care centre and home care to provide a fully joined up set of care options for clients of the service. Surpluses from this service would be used to support both the centre and our own charitable aims

Provider 3's aim would be to make Hafan Deg a real Beacon for the provision of day care and a facility that service users and the local community would want to use. They would see continued use of the building by the wider community to be key to building the centres reputation amongst the community. They are already exploring the possibilities of partnerships/collaboration with other organisations in both the private and 3rd sector to enable this project to become a practical reality.

Provider 3 are currently reviewing the provision of service in the Welsh language against the Welsh language standards 2016 and are committed to meeting these standards as soon as they can.

Provider 4

Provider 4 envisage Hafan Deg will continue to provide the existing services in situ to ensure continuity to the current service users. They will seek to expand and enhance the services by increasing the operating days and hours, offering a wider range of activities within the premises and the local community.

The building would be utilised to accommodate holistic needs of individuals to include specialist areas within the health and social care field for the whole community.

They will look to offer the building and their services to local groups such as children and young people's groups, health groups and social groups. They Visualise the Hafan Deg building as a community hub to enhance community spirit and ensure efficient services are provided to meet the community needs.

They envisage the Hafan Deg building would be gifted to the local community with Provider 4 taking full responsibility of the management of their services and maintenance of the building. The gifting of the building would reduce local authority costs for the staffing and maintenance of the building whilst benefiting the community as a whole.

Questionnaire Summary for Dolwen Residential Care Home, Denbigh

The following information was gained from 1 potential Provider who returned the market testing questionnaires. The information has been anonymised to ensure future bids are not affected.

